Proffiliau enillwyr

Jac Forster – myfyriwr y flwyddyn, Cymraeg i Oedolion

Mae Jac yn byw ger Trewyddel yng Ngogledd Sir Benfro ac mae hi wedi ymgartrefu yn yr ardal honno ers diwedd y nawdegau, ond o Lundain y daw hi yn wreiddiol. Mae hi'n dysgu Cymraeg mewn dosbarthiadau yn Aberteifi ers pedair blynedd, ac mae hi wedi rhoi ei bryd ar ddysgu siarad Cymraeg yn rhugl.

Cyfarfu Jac â'i gwr Marc yn y Brifysgol yng Nghaerdydd. Mae e'n siarad Cymraeg yn rhugl, ac mae eu dau fab yn siarad Cymraeg yn yr ysgol. Medd Jac: 'Ro'n i eisiau cymryd y cyfle i ddysgu a gwerthfawrogi beth mae fy mhlant yn mynd trwyddo yn eu hysgolion'.

Mae newid iaith y teulu yn heriol: 'mae hi wedi bod yn anodd i'r teulu cyfan, a fi hefyd, i newid o'r arfer o siarad Saesneg a dim ond siarad Cymraeg,' meddai Jac. 'Dw i eisiau bod yn rhugl yn y dyfodol ble bydda i'n siarad dim ond Cymraeg gartref. Hefyd dw i eisiau defnyddio Cymraeg bod dydd wrth siarad â phobl leol ac yn fy ngwaith.'

Enwebwyd Jac gan ei thiwtor Philippa Gibson: 'Mae hi'n awyddus i ddefnyddio'i Chymraeg bob amser ac i beidio troi i Saesneg pan fydd anawsterau deall neu fynegi yn codi,' medd Philippa. 'Mae wastad yn barod i helpu a chefnogi eraill yn y dosbarth, ac yn aelod poblogaidd ohono.'

Wendy Lewis – tiwtor y flwyddyn, Cymraeg i Oedolion

Mae Wendy, sy'n byw nawr yn Llanymddyfri, yn dysgu Cymraeg i Oedolion i Brifysgol Aberystwyth yn ardal Llanbedr Pont Steffan. Mae'n deall yn dda sut brofiad yw bod yn ddysgwr Cymraeg, gan iddi ddysgu Cymraeg ei hunan fel plentyn ac oedolyn.

Astudiodd y Gymraeg yn gyntaf fel pwnc yn yr ysgol gynradd ac uwchradd yng ngogledd Powys. Yna fel oedolyn, ail-gydiodd ar ôl priodi â Chymro Cymraeg a symud i fyw i ogledd Sir Benfro. Roedd hi'n benderfynol o ddysgu'r Gymraeg yn rhugl, ac ar ôl mynychu dosbarthiadau unwaith-yr-wythnos, gwnaeth hi gwrs wlpan bedair noson yr wythnos yn Aberteifi.

Mae gan Wendy ddwy ferch sydd wedi tyfu i fyny, Elin a Lowri, sydd ill dwy'n rhugl eu Cymraeg.

Ymhlith diddordebau Wendy y mae garddio a cherdded. Mae hi hefyd yn ymddiddori mewn olrhain achau, ac mae hi wedi olrhain ei theulu ar ochr ei mam i'r bedwaredd ganrif ar ddeg, i hen deulu sir Drefaldwyn o'r enw Derwas.

Mae hi'n hoff iawn o ddysgu Cymraeg i eraill, ac mae hi'n gobeithio parhau i wneud hynny am flynyddoedd i ddod.

Medd Kyra Gwynne, un o'r dysgwyr a enwebodd Wendy, 'Dw i erioed wedi mwynhau gwersi gymaint cyn hyn .... mae Wendy yn dod â'i brwdfrydedd i'r dosbarth, ac mae hi'n brawf ei bod yn bosibl siarad Cymraeg, a hithau yn ddysgwraig ei hunan.' Mae ci chyd-ddysgwyr John a Sheila Evans-Pritchard yn cytuno: 'Does dim byd yn ormod o drafferth i Wendy,' meddant.

Paula Clarke, myfyriwr y flwyddyn, Dysgu Gydol Oes

Bu gan Paula Clarke, sy'n byw yn Ysbyty Ystwyth ger Aberystwyth, ddiddordeb byw mewn celf erioed, ond oherwydd gwrthdaro yn yr amserlen, ni fu'n bosibl iddi ddilyn ei diddordebau yn yr ysgol. 'Cyn i mi ddechrau dosbarthiadau dysgu gydol oes, doeddwn i ddim wedi troi fy llaw at unrhyw waith celf er pan oeddwn yn ddeuddeg oed,' medd Paula, sydd bellach yn gweithio tuag at Dystysgrif Addysg Uwch mewn Celf a Dylunio.

Ar y cychwyn, roedd Paula yn ansicr ynglŷn â dychwelyd i ddysgu gydol oes. 'Doedd gyda fi ddim hyder yn fy sgiliau darlunio a doeddwn i ddim yn hoffi rhannu fy ngwaith yn y dosbarth. Ond diolch i anogaeth fy nhiwtoriaid, rwy'n dechrau ennill hyder yn fy ngallu.'

Fel defnyddiwr cadair olwyn, mae Paula – sydd eisoes wedi 'rhoi cynnig ar bopeth o fywluniadau i ddylunio 3D' – yn canfod bod y cyrsiau yn cwrdd â'i hanghenion. 'Ar yr ychydig achlysuron lle y bu mynediad yn broblem, bu'r tiwtoriaid yn eithriadol o gefnogol. Fe aethon nhw o'u ffordd i ddatrys pethau i mi.'

Mae Paula, a fu'n dilyn cyrsiau dysgu gydol oes ers pedair blynedd bellach, wrth ei bodd yn 'canfod y crochennydd oddi mewn i mi'. Meddai, 'Doeddwn i erioed wedi ystyried crochenwaith, ond bellach rwy'n gobeithio cael fy ngweithdy a'm odyn fy hun – ac un diwrnod, hoffwn greu fy netholiad fy hunan o grochenwaith.'

Yn y cyfamser, mae Paula'n bwriadu parhau gyda dysgu gydol oes. 'Rwy'n credu ein bod mor ffodus i gael ystod mor wych o gyrsiau ar gyfer oedolion yn yr ardal hon – mewn celf a phynciau eraill hefyd.'

Angharad Taris – tiwtor y flwyddyn, Dysgu Gydol Oes

Mae Angharad Taris yn artist ac yn diwtor, a bu'n aelod gwerthfawr o'r tim dysgu gydol oes ers dros ddeg mlynedd.

Dywed Angharad, sy'n byw yng Nghei Newydd, bod dysgu yn rhoi llawer iawn o foddhad iddi. 'Mae helpu eraill i ganfod eu harddull eu hunain yn rhoi llawer o foddhad i mi.'

Graddiodd Angharad yn ei hugeiniau gyda gradd dosbarth cyntaf mewn celf a dylunio o Goleg Canolog St Martin, Llundain. Yn 2004, hi oedd enillydd cenedlaethol gwobr dysgu NIACE. Dros y blynyddoedd bu Angharad yn meithrin ei harbenigedd yn y pwnc drwy ei phrofiad yn yr ysgol gelf, ei gwaith yn Oriel y Tate, a thrwy ei gwaith addysgu.

'Mae dysgu yn fy helpu i ddatblygu fy ngwaith celf fy hunan, yn ogystal â gwaith fy myfyrwyr. Mae celf bob amser yn bwnc mor ddiddorol, gyda chymaint o agweddau iddo, mae rhywbeth ynddo i bawb.'

Mae Angharad, sydd â dawn naturiol i rannu ei gwybodaeth a'i brwdfrydedd ag eraill, yn amlwg wrth ei bodd â'i gwaith fel tiwtor dysgu gydol oes. 'Nid gwaith celf yn unig sydd o dan sylw, mae'n adlewyrchu dynoliaeth a hanes. Dyna pam yr wyf wrth fy modd yn dysgu oedolion, ac rwy'n bwriadu parhau i wneud hynny cyn hired ag y gallaf,' medd Angharad. All hynny ond bod yn newyddion da i'w myfyrwyr.

Award winners' profiles

Jac Forster – student of the year, Welsh for Adults

Jac comes from London originally but now lives Trewyddel in north Pembrokeshire, and has made her home in the area since the end of the ninetees. She has been learning Welsh in classes in Cardigan for four years, and she has set herslef a goal to become fluent in Welsh.

Jac met her husband Marc while studying in Cardiff. He is a fluent Welsh speaker, and their two sons speak Welsh at school. Jac says, 'I wanted to take the opportunity to learn and appreciate what my children are learning in school.'

Changing the language of the home is challenging: 'it has been hard for the whole family, including me, to change from the habit os speaking English to speak only in Welsh,' says Jac. 'I want to become flunet in the future, and to speak only Welsh at home. I also want to use Welsh every day at work and when I'm speaking to local people.'

Jac was nominated for the award by her tutor Philippa Gibson: 'She is always eager to use her Welsh and not to turn to English even when she finds it difficult to understand or express herself in Welsh,' says Philippa. 'She is always prepared to help and support others in the class, and she is a very popular class member.'

Wendy Lewis – tutor of the year, Welsh for Adults

Wendy, who now lives in Llandoverey, teaches Welsh to adults for Aberystwyth University in the Lampeter area. She has a great empathy with Welsh learners, having learnt Welsh herself as a child and as an adult.

Wendy first studied Welsh as a subject at primary and secondary school in North Powys. She took up Welsh again as an adult some years later after marrying a fluent Welsh speaker and moving to north Pembrokeshire. She was determined to learn to speak Welsh fluently, and after attending once-a-week classes, she followed the wlpan course for four evenings a week in Cardigan Secondary School.

Wendy has two grown-up daughters, Elin and Lowri, who are both fluent in Welsh.

Wendy is interested in gardening and walking. She is also interested in geneology, ans has traced her family roots on her mother's side to the fourteenth century, to an old Montgommery family called Derwas.

Wendy loves teaching Welsh to adults and she hopes to continue with this work for many years to come.

Kyra Gwynne, one of the Welsh learners who nominated Wendy, says, 'I have never been to such enjoyable lessons before .... Wendy brings her enthusiasm into the classroom and is proof that it is possible to speak Welsh, being a learner herself.' Her classmates John a Sheila Evans-Pritchard agree. 'Nothing is ever too much trouble for Wendy', they say .

Paula Clarke, student of the year, Lifelong Learning

Paula Clarke, who lives in Ysbyty Ystwyth near Aberystwyth, has always been fascinated with art, yet timetable clashes meant she wasn't able to follow her inclinations at school. 'Before I started lifelong learning classes, I hadn't done any art since I was twelve,' says Paula, who's now working towards a Certificate in Higher Education in Art and Design.

At first, Paula was unsure about returning to learning. 'I lacked confidence in my drawing skills and didn't like sharing my work in class. But thanks to the encouragement of my tutors, I'm beginning to gain confidence in my abilities.'

As a wheelchair user, Paula - who's already 'tried everything from life drawing to 3D design' - finds these courses meet her needs. 'On the few occasions when access has been an issue, the tutors have always been fantastically supportive. They've really put themselves out to sort things out for me.'

Paula, a lifelong learner of four years' standing, is thrilled at 'discovering the inner potter inside me'. She says, 'Pottery is something that had never occurred to me, but now I hope to have my own workshop and kiln – and one day, I'd like to develop my own range of ceramics.'

Meanwhile, Paula plans to continue with lifelong learning. 'I think we're so lucky to have such a fantastic range of courses for adults in this area - in art and other subjects too.'

Angharad Taris – tutor of the year, Lifelong Learning

Artist and tutor, Angharad Taris has been a valued member of the lifelong learning team for over ten years.

Angharad, who lives in Newquay, says she always finds teaching extremely rewarding. 'Helping others to develop their own style gives me great satisfaction.'

Angharad graduated in her twenties with a first class honours degree in art and design from Central St. Martin's College in London and was 2004 winner of the NIACE national teaching award. Over the years, Angharad has developed her expertise in the subject through her experience at art school, her work at the Tate Gallery and through her teaching practice.

'Teaching helps me develop my own artwork, as well as that of my students. Art is always a fascinating subject, with so many different approaches, there's really something in it for everyone.'

Angharad, who exudes a natural ability to share her knowledge and enthusiasm with others, clearly loves her role as a lifelong learning tutor. 'It's not just about artwork, it's a reflection of humanity and history. That's why I love teaching adults and plan to go on doing it for as long as I can,' says Angharad.

That can only be very good news for her students.